Dr L Jones, Mr W Jones

**-iadau:**

**527.** **COFNODION**

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 1 Tachwedd 2017.

**528.** **MATERION YN CODI**

Roedd yr holl faterion a oedd yn codi ar yr agenda.

**529.**

**529(a)**

*ynonellau Agored:* Yn 2017, ni ddefnyddiwyd yr elfen ymbelydrol 125I, a lleihawyd y defnydd o 32P gan brynu un ffynhonnell yn unig. Mae'r gostyngiad hwn o ganlyniad i'r prif grwpiau defnyddwyr yn nodi dewisiadau eraill an-ymbelydrol ar gyfer eu hymchwil.

ii. Mae'r labordy ECW yn parhau i fod y labordy ymbelydredd prysuraf. Fel y cyfryw, mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyfleusterau'r dyfodol, fel rhan o gynnig Ardal y Gwyddorau a Thechnoleg.

iii. *Safonau Polisi Newydd/ Diwygiedig:* Trafodwyd y Defnydd Diogel o Ffynonellau Golau Ymbelydredd Optegol Artiffisial (ac eithrio laserau), Meysydd Electromagnetig (EMF) a'r Safon Polisi Defnydd Diogel o Laser, sy'n dod dan gylch gorchwyl ymbelydredd.

iv.

sefydliadau'n awr 'hysbysu', 'gofrestru' neu gael 'cydsyniad' yr Awdurdod
*ZHLWKUHGRO ,HFK\G D 'LRJHOZFK +6(
'Gofrestru' ei gwaith a 'Hysbysu' safleoedd gyda lefelau radon uwch na 300 Bq m-3 (cyfartaledd dros flwyddyn).

- Oherwydd gostyngiad sylweddol yn y ddos fwyaf a ganiateir i'r llygaid, efallai y bydd yn ofynnol i weithwyr ymbelydredd wisgo sbectol ddiogelwch i warchod rhag tasgiadau i'r llygaid. Gofynnwyd am gyngor gan Gynghorwr Amddiffyn rhag Ymbelydredd (RPA) allanol y Brifysgol. Mae dulliau gweithredu a chyfarwyddiadau diwygiedig wrthi'n cael eu

system cofnodion staff electronig.

vii. *PACS:* Ceisir cael sicrwydd nad yw ymadawiadau staff ynghyd â defnyddio sawl meddalwedd rheoli data gwahanol, yn effeithio'n negyddol ar drefniadau cydymffurfio.

**531. ADRODDIAD AR FATE re. hioT. 4(RODAU d)-((w)-PA A**

- *Defnydd Diogel o Ffynonellau Golau Ymbelydredd Optegol Artiffisial Peryglus (ymbelydredd anïoneiddiol)*
  Nodir y gofynion ar gyfer defnyddio ffynonellau golau ymbelydredd optegol artiffisial peryglus yn ddiogel, yn unol â'r Rheoliadau Rheoli Ymbelydredd Optegol Artiffisial yn y Gwaith. Mae'r Polisi'n eithrio ³ODVHUDX´ \Q EHQRGRO \U \PGULQQLU k

ii. **Safonau Polisi Diwygiedig/a Ddiddymwyd:**

- *Diogelwch Laser (ymbelydredd anïoneiddiol) - Adolygiad*
  Bwriedir gwneud adolygiad o bwys o'r Cod Ymarfer Diogelwch Laser cyfredol, a symleiddio'r Safon Bolisi i adlewyrchu'n briodol ofynion y Rheoliadau Rheoli Ymbelydredd Optegol Artiffisial yn y Gwaith.
- *Plant ar dir y Brifysgol - Diddymu*
  Mae Polisi Iechyd a Diogelwch 2016 y Brifysgol yn cynnwys adran yn benodol ar gyfrifoldeb dros ddiogelu plant sy'n ymweld â'r Brifysgol, neu'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Brifysgol (Adran 14). Fel y cyfryw, cynigir bod y Polisi cyfredol ar gyfer diogelwch plant ar dir y Brifysgol yn cael ei ddiddymu.

iii. **Archwiliadau i Systemau Rheoli Iechyd a Diogelwch:**

- *Undeb y Myfyrwyr (UM)*
  Mae'r archwiliad o reolaeth gyffredinol o iechyd a diogelwch yr UM wedi GHFKUDX %\GG \U DUFKZLOLDG \Q GHIQ\ weithgarwch risg, gan adlewyrchu ar y gwaith a wnaed gyda'r UM yn y blynyddoedd diwethaf i asesu a rheoli risg.
- *Y Ganolfan Rheolaeth*
  Bydd archwiliad o brosesau cyffredinol y Ganolfan Rheolaeth yn dechrau pan fydd archwiliad yr UM bron â gorffen/wedi gorffen. Bydd hyn yn cynnwys detholiad o asesiadau 'manylach'. Er enghraifft, diogelwch ceginau a digwyddiadau.

iv. **Colegau a Byrddau Cyfarwyddwyr Newydd:**

- *Dogfen Reoli Gychwynnol*
  Cynhyrchwyd dogfen ddrafft i adnabod gweithgareddau a swyddi staff y bydd angen eu nodi yn ystod camau cychwynnol Colegau a Gwasanaethau Proffesiynol newydd. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf ag elfennau allweddol rheoli iechyd a diogelwch yn ystod newid sefydliadol, ac yn ceisio sicrhau bod canolbwynt/ pwynt cyswllt ar gyfer meysydd pwnc-risg allweddol yn parhau lle bo'n briodol.
- *Dogfennau Rheoli Iechyd a Diogelwch*
  Mae dogfennau templed drafft o bolisïau a dulliau gweithredu yn cael eu datblygu i symleiddio a chyd-fynd ar draws dyletswyddau perthnasol a nodir yn Adran 7 o Bolisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol. Bydd y dogfennau yn rhoi cyfarwyddyd cliriach ar y cyfrifoldebau a bennir i Benaethiaid Ysgolion a staff eraill.